**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Llywodraeth Cymru

11 Ionawr 2019

Annwyl Lesley,

**Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Pysgodfeydd**

Diolch am gytuno i roi tystiolaeth ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar 24 Ionawr.

I lywio ein gwaith, hoffem gael rhagor o fanylion a/neu eglurhad, yn ychwanegol at yr hyn a geir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, ar y materion a ganlyn:

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi'r canlynol:

> "Mae'r Bil Pysgodfeydd yn creu elfennau deddfwriaethol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd wedi ymadael â'r UE. **Dim ond trwy Fil y DU**, sy'n darparu set unffurf o ymrwymiadau ac amcanion, y byddai'n briodol cymhwyso'r darpariaethau hyn… .O dan y trefniadau datganoli presennol, ni fyddai Deddf gan y Cynulliad yn gallu gwneud yr holl ddarpariaethau fyddai eu hangen i wneud Bil ystyrlon. **Mae hynny'n golygu ein bod yn dibynnu'n rhannol ar Fil Pysgodfeydd y DU ac yn rhannol ar Fil Pysgodfeydd Cymreig**."

Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn parhau i nodi, **ar gais Llywodraeth Cymru**, fod Bil y DU hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiadau i gyhoeddi ymgynghoriad, sef *Brexit a'n Moroedd* yn nhymor y gwanwyn ac i gyflwyno Bil pysgodfeydd Cymreig.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

***Yr angen am ddeddfwriaeth a'r dull a ddefnyddiwyd***

**Cwestiwn 1.** I ba raddau y mae Bil y DU yn cynnwys darpariaethau sy'n ychwanegol at y rhai sy'n angenrheidiol er mwyn sefydlu fframwaith deddfwriaethol y DU ar gyfer pysgodfeydd ar ôl ymadael â'r UE? Pa rai o'r darpariaethau hyn allai fod wedi'u cynnwys mewn Bil Pysgodfeydd Cymreig yn y dyfodol?

**Cwestiwn 2.** Pa rai o'r pwerau i Weinidogion Cymru a gafodd eu cynnwys ar gais Llywodraeth Cymru?

**Cwestiwn 3.** Beth yw'r sail resymegol dros ofyn am y pwerau hyn, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil pysgodfeydd Cymreig?

**Cwestiwn 4.** Beth yw'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru a'r sector pysgodfeydd os nad yw'r pwerau hyn wedi'u cynnwys ym Mil y DU?

**Cwestiwn 5.** Mae Atodlen 6 yn cynnwys pwerau eang i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth at ddibenion 'cadwraeth' a 'diwydiant pysgod'. Pam mae angen cynnwys y darpariaethau hyn ym Mil y DU, yn hytrach na Bil pysgodfeydd Cymreig yn y dyfodol a fydd yn ddarostyngedig i broses graffu lawn y Cynulliad?

***Amcanion pysgodfeydd***

Ni fydd amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (a nodir yn Erthygl 2 o Reoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE) yn gymwys bellach yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae Cymal 1 o Fil y DU yn nodi amcanion pysgodfeydd y DU, sy'n adlewyrchu rhai o amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

**Cwestiwn 6.** Sut y mae amcanion pysgodfeydd yng nghymal 1 yn wahanol i'r rhai a nodir yn Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ac yn eu gwella?

**Cwestiwn 7**. Sut yr ystyriwyd cynnwys cerrig milltir a/neu dargedau ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn y Bil, er enghraifft, mewn perthynas â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (fel sydd yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar hyn o bryd)? A fydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn mannau eraill, er enghraifft, mewn Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd?

**Cwestiwn 8** Sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd yn cael ei fesur a'i fonitro yng Nghymru? A oes unrhyw fwriad i ddatblygu dull cyffredin o fesur a monitro cynnydd ar draws y DU?

***Datganiadau pysgodfeydd***

Mae Cymal 2 i 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol. O dan y ddarpariaeth hon, rhaid i awdurdodau'r polisi pysgodfeydd (h.y. Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig) lunio a chyhoeddi Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd cyn 1 Ionawr 2021. Gosodir gofyniad cyfatebol ar yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol.

Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio a chyhoeddi Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar Gyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft cyn ei osod gerbron y ddeddfwrfa briodol, ac ymateb i benderfyniadau ac argymhellion.

Mae Cymal 2(1) yn darparu y bydd Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi polisïau'r awdurdodau pysgodfeydd ar gyfer cyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu gyfrannu atynt. Mae Cymal 6(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau (a'r Sefydliad Rheoli Morol) arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota neu ddyframaethu yn unol â'r polisïau a geir mewn Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Fodd bynnag, caiff awdurdodau wyro o'r polisïau hynny, ond rhaid iddynt nodi eu rheswm.

**Cwestiwn 9.** A allwch esbonio'n fanwl sut y bydd awdurdodau'r polisi pysgodfeydd yn gweithredu ar y cyd mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd? Sut y bydd Cytundeb y Fframwaith Rheoli Pysgodfeydd, y cyfeirir ato yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, yn llywio'r dull hwn?

**Cwestiwn 10.** A allwch egluro a fyddai disgwyl i awdurdodau'r polisi pysgodfeydd ymgynghori â deddfwrfeydd priodol ar ddiwygiadau i Gyd-ddatganiad Pysgodfeydd ddrafft sy'n deillio o graffu ar ddeddfwrfa briodol arall, cyn cyhoeddi testun terfynol Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd?

**Cwestiwn 11.** Er bod Atodlen 1 yn darparu ar gyfer craffu ar Gyd-ddatganiad Pysgodfeydd gan y ddeddfwrfa briodol cyn ei gyhoeddi, ni fydd Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y deddfwrfeydd hynny. Sut yr ystyriwyd cynnwys darpariaeth o'r fath?

**Cwestiwn 12.** A allwch esbonio sut ac i bwy y gwneir datganiad o dan gymal 6(2)? Pam nad oes trefn ffurfiol yn y Bil i'r perwyl hwn?

Mae'r Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol yn cwmpasu llawer o'r amcanion manylach sydd yn Erthygl 2(5) o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Rhaid i'r Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol gynnwys polisïau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r amcanion hyn. Dim ond i bwerau a gedwir a'r rhai sy'n gymwys i Loegr yn unig y byddai'r amcanion hyn yn gymwys.

**Cwestiwn 13.** A allwch egluro diben ac effaith fwriadedig Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol fel y mae'n ymwneud â Chymru?

- Beth yw'r pwerau a gedwir y bydd y Datganiad Pysgodfeydd Ysgrifennydd Gwladol yn gymwys iddynt?

- A ydych yn bwriadu darparu amcanion manwl cyffelyb a fyddai'n gymwys i Gymru? Os ydych, pryd a sut?

***Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota***

Mae cymalau 18 a 19 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chyfleoedd pysgota (neu gwota) ar gyfer cychod pysgota Prydeinig. Mae Cymal 18 yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfleoedd pysgota. Dim ond at ddiben cydymffurfio â rhwymedigaeth ryngwladol y DU yn hyn o beth y gellir gwneud penderfyniad.

Mae Cymal 19 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru (a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill) cyn gwneud neu ddileu penderfyniad o dan gymal 18.

Mae'r Concordat Pysgodfeydd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (y Concordat) yn nodi'r canlynol:

> "The Administrations note that this Concordat involves an agreement to allocate amounts of quota to each Administration. Such allocations do not constitute a permanent split of UK fishing opportunities."

Mae'r Concordat yn nodi ar ba sail y bydd cwota sydd wedi'i ddyrannu i'r DU ar hyn o bryd yn cael ei ddyrannu i bob un o'r gweinyddiaethau. Mae hefyd yn galluogi'r gweinyddiaethau datganoledig i wneud newidiadau i'r ffordd y gellir dyrannu cyfleoedd pysgota o fewn eu hawdurdodaeth.

**Cwestiwn 14.** A allwch egluro a yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn rhoi *hawl* i gyfleoedd pysgota i Gymru (a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill)? Os nad yw, pam lai?

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn cael 1 y cant o gwota'r DU. Hyd yn oed os bydd lefelau cyffredinol cwota'r DU yn cynyddu ar ôl Brexit, dim ond 1 y cant o'r cynnydd hwnnw a gaiff Cymru.

**Cwestiwn 15.** O ran cwota pysgota, budd ymylol a fydd i Gymru o ymadawiad y DU â'r UE. A ydych yn credu bod hyn yn dderbyniol? Pa drafodaeth a gawsoch â Llywodraeth y DU yn hyn o beth?

**Cwestiwn 16.** Ar ba sail y caiff cyfleoedd pysgota yng Nghymru eu dosbarthu a pha drefn a gaiff ei defnyddio?

**Cwestiwn 17.** A fydd angen ailystyried y Concordat Pysgodfeydd yn sgil y darpariaethau yn y Bil? Os bydd, ym mha ffordd?

**Cwestiwn 18.** A allwch egluro a yw cymal 20 yn ymwneud â dosbarthu cyfleoedd pysgota gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Sefydliad Rheoli Morol) i bedair gwlad y DU, neu ddosbarthu cyfleoedd pysgota gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Sefydliad Rheoli Morol) i gychod pysgota yn Lloegr?

Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, ni fydd diwygiadau i Erthygl 17 o Reoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin y darperir ar eu cyfer gan gymal 20, sy'n nodi sut y dylid dosbarthu cyfleoedd pysgota, yn gymwys i Gymru. Mae Erthygl 17 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â meini prawf tryloyw a gwrthrychol fel sail y dosbarthiad hwnnw. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud nad yw cymal 20 yn cymhwyso Erthygl 17 i'r Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill, ar eu cais.

**Cwestiwn 19.** A allwch amlinellu eich rhesymau dros hyn? Beth fydd hyn yn ei olygu'n ymarferol?

***Gwerthu cyfleoedd pysgota a chynlluniau codi tâl atal i taflu pysgod***

Mae Cymal 22 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno dull gwahanol o ran dyranu cwota **ar gyfer Lloegr yn unig**. Mae hyn yn cynnwys pennu proses ar gyfer gwerthu cyfleoedd pysgota.

Mae Erthygl 15 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (nad ydynt wedi'u diwygio gan Fil y DU) yn cyflwyno gwaharddiad taflu ar ffurf rhwymedigaeth glanio ar gyfer yr holl bysgod a ddelir. Daw'r gwaharddiad i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2019.

Mae cymalau 23 i 27 yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu, ar gyfer Lloegr, gynllun codi tâl sy'n caniatáu gwneud taliad am ddalfa pysgod heb awdurdod. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil y DU, cafodd cymal 23 ei gynnwys i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch effaith y gwaharddiad taflu. Ni wneir darpariaethau cyfatebol mewn perthynas â Chymru.

**Cwestiwn 20.** Sut y gwnaethoch ystyried gofyn am ddarpariaethau cyfatebol ar gyfer gwerthu cyfleoedd pysgota a chynlluniau codi tâl i atal taflu pysgod i Gymru?

Yn olaf, rydym yn ymwybodol bod y Bil eisoes wedi cwblhau cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. **Hoffem i chi roi amserlen ar gyfer hynt y Bil drwy'r Senedd, a hoffem gael sicrwydd gennych y bydd hyn yn rhoi digon o amser i Lywodraeth Cymru drafod diwygiadau y bernir eu bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol.**

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ymateb i'r uchod erbyn **dydd Gwener 18 Ionawr**. Er fy mod yn deall bod hwn yn derfyn amser tyn, bydd yn helpu i sicrhau'r defnydd gorau o amser yn ein sesiwn ar 24 Ionawr.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Copi at: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
David Rees AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Deddfwriaeth Ychwanegol